Dimethyl fumarate ar gyfer trin sglerosis ymledol sy'n ailwaelu-dychwelyd

Awst 2014

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir dimethyl fumarate fel triniaeth bosibl ar gyfer pobl sydd â sglerosis ymledol sy'n ailwaelu-dychwelyd nad yw'n sglerosis ymledol gweithredol iawn sy'n ailwaelu-dychwelyd neu'n datblygu'n gyflym.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych sglerosis ymledol gweithredol sy'n ailwaelu-dychwelyd, a bod eich meddyg o'r farn mai dimethyl fumarate yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai dimethyl fumarate fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd dimethyl fumarate nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn addas rhoi'r gorau i'w gymryd.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Argymhellwyd dimethyl fumarate am ei fod yn gweithio cystal ac yn costio tua'r un peth â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Y cyflwr a'r driniaeth

Afiechyd lle caiff rhannau o'r ymennydd a llinyn y cefn eu niweidio gan system imiwnedd y corff yw sglerosis ymledol (MS). Ceir mathau gwahanol o'r cyflwr. Un math yw sglerosis ymledol sy'n ailwaelu-dychwelyd, lle y caiff pobl fflamychiadau o symptomau (ailwaelu) a chyfnod o wella (gwellhad dros dro) i

ddilyn. Sglerosis ymledol gweithredol sy'n ailwaelu-dychwelyd yw'r afiechyd pan fydd yr unigolyn wedi ailwaelu'n glinigol ddifrifol ddwywaith yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae sglerosis ymledol gweithredol iawn sy'n ailwaelu-dychwelyd neu sy'n datblygu'n gyflym yn golygu bod y cyflwr hyd yn oed yn fwy gweithredol a difrifol.

Cyffur yw dimethyl fumarate (a elwir hefyd yn Tecfidera) sy'n gweithio drwy addasu system imiwnedd y corff i'w atal rhag ymosod ar yr ymennydd a llinyn y cefn.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chefnogaeth

- Multiple Sclerosis Society, 020 8438 0700, www.mssociety.org.uk
- Ymddiriedolaeth Sglerosis Ymledol, 01462 476700, www.mstrust.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-0761-8